# Adroddiad Blynyddol Craffu 2024-25

## CYFRANNU AT YRRU GWELLIANT MEWN GWASANAETHAU I BOBL GWYNEDD

CYNGOR GWYNEDD

www.gwynedd.llyw.cymru/craffu

# Rhagair


Llynedd bu i ni adrodd ar y camau yr oedd yn cael eu cymryd mewn ymateb i adolygiad o'n trefniadau craffu gan Archwilio Cymru. Rydym yn parhau i fireinio ein trefniadau craffu ac yn adeiladu ar y camau sydd wedi eu cymryd mewn ymateb i argymhellion yr adolygiad. Mae'n daith barhaus, a mi ydwyf i a fy nghyd-gadeiryddion ac is-gadeiryddion, wedi cydweithio drwy'r Fforwm Craffu i sicrhau ein bod yn adnabod unrhyw gyfleoedd i wella ein trefniadau er mwyn uchafu gwerth cyfraniad craffu at yrru gwelliant mewn gwasanaethau i bobl Gwynedd.

Rhoddwyd cyfle i'r holl aelodau, Aelodau Cabinet, Penaethiaid Adran a thrigolion Gwynedd i gynnig eitemau posib i'w craffu yn ystod 2024/25. Derbyniwyd dau awgrym o faterion posib i'w craffu gan drigolion Gwynedd.

Bu i'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi adnabod yr angen i gynnal ymchwiliad craffu ar drefniadau diogelu mewn ysgolion. Blaengraffodd y Pwyllgor Craffu Cymunedau y bwriad i gyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 i reoli newid defnydd ail-gartrefi a llety gwyliau cyn i'r Cabinet gymeradwyo ei weithrediad. Bu i'r Pwyllgor Craffu Gofal wahodd partneriaid allanol ar dri achlysur. Cynhaliwyd cyfarfod i graffu'r maes tai cymdeithasol yn unig gan wahodd cynrychiolwyr o'r cymdeithasau tai; daeth archwilwyr allanol i adrodd ar eu gwaith yn y maes oedolion; a gwahoddwyd cynrychiolwyr o'r Bwrdd Iechyd i drafod materion iechyd.

Mae'r adroddiad yma yn crynhoi'r gwaith craffu a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn gan amlygu effaith y gwaith craffu.

Mae cydweithio yn holl bwysig i gyflawni a gyrru gwelliant i wasanaethau. Gwerthfawrogaf gyfraniad fy nghyd-gadeiryddion ac is-gadeiryddion, yr aelodau craffu, aelodau cabinet, swyddogion a phawb sydd wedi cyfrannu i'r gwaith craffu yn ystod y flwyddyn. Ni allaf or-bwysleisio bod cydweithio adeiladol yn hanfodol er mwyn sicrhau llwyddiant y drefn craffu.



Cynghorydd Beth Lawton,
Cadeirydd y Fforwm Craffu

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Gweithdai Craffu | 3 – 4 |
| Fforwm Craffu | 5 – 6 |
| Pwyllgorau Craffu | 7 – 18 |
| Ymchwiliad Craffu | 19 |
| Datblygiadau 2024-25 | 20 – 21 |
| Trefniadau Tracio | 22 |
| Herio Perfformiad | 23 |
| Hyfforddiant | 24 |
| Ffeithiau am Graffu yng Ngwynedd yn 2024/25 | 25 |

| | |
|---|---|
| Rhestr o’r holl eitemau a graffwyd mewn cyfarfodydd ffurfiol yn ystod y flwyddyn | 26 – 28 |

# Gweithdai Craffu

Cynhaliwyd gweithdai i lunio rhaglen waith ddrafft ar gyfer 2024/25 fesul Pwyllgor Craffu yn Ebrill 2024.

Cymerwyd y cyfle i atgoffa'r aelodau o bwrpas craffu yng Ngwynedd, sef:

**CYFRANNU AT YRRU GWELLIANT MEWN GWASANAETHAU
I BOBL GWYNEDD**

Gwneir hyn yn adeiladol trwy:

- Ymchwilio i bryderon am ansawdd ein gwasanaethau
- Weithredu fel Ffrind Critigol yn sicrhau fod sylw priodol yn cael ei roi i lais y dinesydd
- Adnabod ymarfer da a gwendidau
- Dal y Cabinet a'i aelodau i gyfrif
- Adolygu neu graffu penderfyniadau neu weithredoedd nad ydynt yn gyfrifoldeb y Cabinet

Amlygwyd bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn rhoi gofyn ar gynghorau i ystyried effaith gwneud rhywbeth rŵan a'r effaith hirdymor ar gyfer y dyfodol. Ymhelaethwyd bod craffu yn gwneud hyn drwy weithio mewn partneriaeth, gwneud defnydd effeithiol o amser mewn pwyllgor, drwy gwestiynu a gwneud argymhellion y mae modd eu gwireddu.

Pwysleisiwyd pwysigrwydd effaith craffu a'r angen i wneud argymhellion CAMPUS:

**C**yraeddadwy
**A**mserol
**M**esuradwy
**P**enodol
**U**chelgeisiol
**S**ynhwyrol

Manylwyd ar y gwahanol fathau o graffu - adweithiol a rhagweithiol:

| **ADWEITHIOL**<br>*Dal i Gyfrif* | **RHAGWEITHIOL**<br>*Cefnogi Gwella* |
|---|---|
| Ymgynghori â gwneud argymhellion trwy:<br>• Bwyllgorau;<br>• Ymchwiliadau;<br>• Grwpiau Tasg a Gorffen. | • Monitro<br>• Herio<br>• Ceisio sicrwydd am:<br>➢ berfformiad;<br>➢ penderfyniadau sydd i ddod;<br>➢ penderfyniadau a wnaethpwyd;<br>➢ polisïau. |

Amlinellwyd y newidiadau ymarferol i drefniadau craffu yn dilyn adolygiad Archwilio Cymru o effeithlonrwydd craffu a'r hyfforddiant 'Arfer Gorau Pwyllgorau Craffu' a gynhaliwyd gan hyfforddwyr allanol ym mis Mawrth 2024.

Ystyriwyd eitemau posib i'w craffu yn ystod y flwyddyn. Roedd aelodau'r pwyllgorau wedi derbyn rhestr o eitemau posib ar gyfer y meysydd gwaith mae'r pwyllgorau unigol yn gyfrifol amdanynt ymlaen llaw. Gofynnwyd i aelodau ymateb i gwestiwn ar-lein cyn y gweithdy - ***Beth yw eich 5 prif flaenoriaeth?*** - gan gadw mewn cof y ffactorau canlynol:

- A yw'r mater yn effeithio ar gyfran helaeth o'r boblogaeth?
- A yw craffu yn gallu gwneud gwahaniaeth / cael dylanwad? (pobl / gwasanaeth / perfformiad)
- A yw'r mater yn amserol i'w graffu?
- Ydi'r mater yn flaenoriaeth i'r Cyngor?
- A ydym yn glir beth ydym yn ceisio ei wella?

Nodwyd yr eitemau a ddaeth i'r brig o'r ymatebion i'r cwestiwn. Rhoddwyd cyfle i'r aelodau drafod:

***A ydych yn cytuno gyda'r 5 prif flaenoriaeth?***

***Beth yn ychwanegol o'r rhestr y dylid ei graffu yn ystod 2024/25?***

Cynhaliwyd trafodaethau agored gan lunio fersiwn cychwynnol o'r rhaglen waith ddrafft. Anelwyd at flaenoriaethu uchafswm o dair eitem fesul cyfarfod er mwyn sicrhau rhoi sylw haeddiannol i'r eitemau. Yn dilyn y trafodaethau, bu i'r Penaethiaid Adran a'r Aelodau Cabinet perthnasol ymuno. Rhoddwyd y cyfle iddynt nodi unrhyw fater oedd angen ystyriaeth yng nghyd-destun y materion a flaenoriaethwyd ac o ran amseru'r craffu.

Roedd gan bob pwyllgor rhaglen waith ddrafft ar ddiwedd y gweithdai.

# Fforwm Craffu

Mae'r Fforwm Craffu yn cyfarfod yn rheolaidd er mwyn cymryd trosolwg o holl waith craffu'r Cyngor gyda'r aelodau (Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu), yn herio naill a'r llall i sicrhau fod y materion cywir yn cael eu blaenoriaethu.

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Fforwm gyda chadeiryddion ac is-gadeiryddion 2023/24 ar 7 Mai 2024. Yr aelodaeth ar y pryd oedd:

| PWYLLGOR CRAFFU | CADEIRYDD | IS-GADEIRYDD |
|---|---|---|
| Addysg ac Economi | Cyng. Elwyn Jones | Sedd wag |
| Cymunedau | Cyng. Elin Hywel | Cyng. Annwen Hughes |
| Gofal | Cyng. Beth Lawton | Cyng. Linda Ann Jones |

Bu i'r aelodau ystyried y flaenraglen craffu drafft cyn i'r pwyllgorau craffu unigol fabwysiadu eu rhaglen waith. Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Fforwm fynegi barn ar y newidiadau y bwriadwyd eu cyflwyno i drefniadau gweithredu ymarferol y pwyllgorau yn 2024/25. Cyflwynwyd yr hyn y bwriadwyd ei gynnwys yn adroddiad blynyddol 2023/24 gan ofyn i'r aelodau am awgrymiadau o ran ei gynnwys.

Yng nghyfarfod cyntaf y Fforwm ar 25 Hydref 2024 gyda aelodaeth newydd, ymhelaethwyd ar rôl y Fforwm Craffu, sef i:

- Gynghori ar FLAENORIAETHU eitemau i'w craffu (mwyafrif yn craffu ffurfiol gyda nifer fechan o ymchwiliadau) gan herio sail adnabod eitemau i'w craffu.
- Adnabod y dull craffu mwyaf effeithiol o fewn yr adnoddau sydd ar gael (craffu ffurfiol / ymchwiliad)
- Adnabod eitemau sydd er gwybodaeth, gan geisio osgoi defnyddio trefniadau craffu i gyflawni'r rôl rhannu gwybodaeth.
- Asesu cyfraniadau'r pwyllgorau unigol ac asesu EFFAITH y gwaith craffu, gan adolygu ein trefniadau craffu yn barhaus.

Dyma'r cadeiryddion ac is-gadeiryddion fesul pwyllgor ar gyfer 2024/25:

**Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi**



Cynghorydd
Cai Larsen



Cynghorydd
Rhys Tudur

**Pwyllgor Craffu Cymunedau**



Cynghorydd
Annwen Hughes



Cynghorydd
Delyth Lloyd Griffiths

**Pwyllgor Craffu Gofal**



Cynghorydd
Beth
Lawton



Cynghorydd
Dewi Jones
(tan 9 Rhagfyr 2024)



Cynghorydd
Elwyn Jones
(o 20 Chwefror 2025)

Rhoddwyd trosolwg o'r flaenraglen craffu i sicrhau fod y materion cywir wedi eu blaenoriaethu. Hefyd, rhoddwyd ystyriaeth i'r blaenraglen Cabinet gan ystyried os oedd unrhyw faterion pellach y dylid eu blaengraffu cyn i'r Cabinet wneud penderfyniad.

Trafodwyd datblygiadau yn y maes craffu, trefn i gadeiryddion craffu dderbyn gwahoddiad i fynychu cyfarfod o'r Cabinet pan mae'r pwyllgorau craffu wedi blaengraffu eitem, trefniadau tracio penderfyniadau/argymhellion a'r trefniadau adrodd ar berfformiad i'r pwyllgorau craffu yn hytrach na chyflwyno adroddiadau i gyfarfodydd y Cabinet.

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Fforwm ar 29 Ionawr 2025, rhoddwyd ystyriaeth i fersiynau diweddaraf y flaenraglen craffu a blaenraglen y Cabinet. Bu i'r Fforwm ystyried brîff drafft Ymchwiliad Craffu Trefniadau Diogelu mewn Ysgolion. Blaenoriaethwyd adnoddau i alluogi'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi i sefydlu grŵp o aelodau'r pwyllgor i gyflawni'r gwaith. Mae mwy o wybodaeth am yr ymchwiliad craffu ar dudalen 20 yr adroddiad blynyddol.

Hefyd, cyflwynwyd dogfen a oedd yn codi ymwybyddiaeth aelodau'r Fforwm Craffu am drefniadau craffu Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd (CBC), er ystyriaeth, cyn i'r Cyngor Llawn yn ei gyfarfod ar 6 Mawrth 2025 gymeradwyo sefydlu Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu CBC y Gogledd a fydd gyda cynrychiolaeth o'r 6 cyngor ar draws y Gogledd.

Yng nghyfarfod olaf y Fforwm ar gyfer y flwyddyn, adlewyrchwyd ar y datblygiadau i'r trefniadau craffu yn ystod 2024/25. Cyflwynwyd yr hyn y bwriadwyd ei gynnwys yn adroddiad blynyddol 2024/25 gan ofyn i'r aelodau am awgrymiadau o ran ei gynnwys. Rhoddwyd sylw i drefniadau llunio rhaglen waith craffu 2025/26. Cymeradwywyd adnoddau i gynnal Grŵp Tasg a Gorffen – Polisi Iaith Addysg Drafft, ar sail fod adnoddau digonol i gynnal un cyfarfod o'r grŵp tasg.

# Pwyllgorau Craffu

Mae tri phwyllgor craffu yng Ngwynedd gyda rôl i graffu meysydd gwaith penodol gan bob un. Yn y rhan yma, mae gwybodaeth am ba feysydd gwaith mae'r gwahanol bwyllgorau yn gyfrifol am ei graffu, yr eitemau a graffwyd yn ystod 2024-25 mewn cyfarfod Pwyllgor, y rheswm dros graffu ac effaith y craffu fesul eitem.

Rhoddir pwyslais ar graffu yn ychwanegu gwerth yng Ngwynedd gydag eitemau yn cael eu blaenoriaethu er mwyn eu craffu yn amserol i uchafu'r effaith.

## Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi

Adran Addysg, Adran Economi a Chymuned, GwE, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, Tîm Arweinyddiaeth a Chyfreithiol, Adran Gwasanaethau Corfforaethol, Adran Gyllid, Gweithrediad Mewnol y Cyngor a Partneriaethau

**1. Adroddiad Blynyddol GwE**
*Eitem Blynyddol / Sicrwydd*

Craffwyd Adroddiad Blynyddol 2023/24 y Gwasanaeth Effeithlonrwydd Ysgolion (GwE) a oedd yn adrodd ar gynnydd yn erbyn y pum maes allweddol yn ogystal â nodi'r camau nesaf ar y llwybr gwella. Dyma'r Adroddiad Blynyddol olaf y byddai GwE yn ei ddarparu ar gyfer y pwyllgor craffu oherwydd bod GwE yn dirwyn i ben gyda'r trefniadau rhanbarthol yn cael ei ddisodli gan drefniadau lleol.

***Effaith Craffu*** – Craffu ar ddiwedd cyfnod gan wneud sylwadau am yr hyn sydd wedi ei gyflawni.

**2. Adolygiad Haen Ganol – Gwasanaeth Gwella Ysgolion**
*Mewnbwn i'r cyfeiriad ar gyfer y dyfodol*

Gofyniad ar bob Awdurdod Addysg i sefydlu trefniadau ar gyfer cefnogi ysgolion sydd yn diwallu gofynion y Fframwaith Gwella Ysgolion wrth i GwE ddirwyn i ben. Ystyriwyd y sefyllfa ddiweddaraf a'r heriau wrth sefydlu'r trefniadau.

***Effaith Craffu*** – Mewnbwn buan gan y Pwyllgor Craffu i'r modd y caiff y gwasanaeth gwella ysgolion ei ddarparu i'r dyfodol.

**3. Trefniadau Diogelu mewn Ysgolion**
*Sicrwydd o ran y trefniadau*

Craffwyd trefniadau diogelu mewn ysgolion, ynghyd â'r arweiniad a'r gefnogaeth a roddir yn y maes hwn gan yr Adran Addysg.

***Effaith Craffu*** – Argymhellwyd bod yr Adran Addysg yn darparu canllaw syml o ran cyfeirio pryderon er defnydd pawb sy'n ymwneud â'r gyfundrefn, megis llywodraethwyr a rhieni. Adnabuwyd yr angen i ystyried edrych ymhellach ar y maes hwn ac fe wnaeth hyn arwain at sefydlu'r Ymchwiliad Craffu Trefniadau Diogelu mewn Ysgolion.

**4. Cynllun Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri 2035**
*Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Lewyrchus*

Blaengraffwyd y cynllun drafft cyn i'r Cabinet ei fabwysiadu ar 14 Chwefror 2023. Eleni, craffwyd cynnydd yng nghyflawni'r Cynllun, strwythur y bartneriaeth, y cynllun gweithredu a'r trefniadau monitro cynnydd ynghyd â mesuryddion.

***Effaith Craffu*** – Gofynnwyd i Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri wneud pob ymdrech i ymgynghori gyda'r cynghorwyr sir lle mae hynny'n briodol. Hefyd, bod yr Adran Economi a Chymuned, wrth wneud gwaith ymchwil, yn edrych ar y materion penodol a godwyd gan y pwyllgor ynglŷn â data ac ati.

**5. Adroddiad cynnydd ar ymateb i argymhellion Estyn**
*Adroddiad Archwiliwr Allanol*

Roedd yr adroddiad yn manylu ar gynnydd yr Adran Addysg mewn ymateb i argymhellion Adroddiad Estyn ar wasanaethau addysg yng Nghyngor Gwynedd (Mehefin 2023) mewn perthynas â phresenoldeb ac ymddygiad disgyblion yn ysgolion y sir.

Ystyriwyd y camau a gyflawnwyd gan graffu'r cynnydd o ran gwella presenoldeb ac ymddygiad o fewn ysgolion, gweithredu ar ganfyddiadau'r gwaith sydd wedi edrych ar ddefnydd o arian cynhwysiad o fewn yr ysgolion yn ogystal â'r heriau a chyfleoedd yn y maes cynhwysiad.

***Effaith Craffu*** - Derbyn sicrwydd bod gwaith yn cael ei wneud mewn ymateb i'r heriau yn y maes a phenderfynu bod angen craffu'r maes yn y dyfodol er sicrhau cynnydd.

**6. Trawsnewid addysg ar gyfer plant yn eu blynyddoedd cynnar**
*Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Yfory*

Craffwyd y camau y bwriadwyd eu cymryd er mwyn trawsnewid addysg ar gyfer plant yn eu blynyddoedd cynnar gan ystyried yr amserlen, y cerrig milltir allweddol a'r sefyllfa gyllidol.

***Effaith Craffu*** – Nodi pryder ynglŷn â diffyg adnoddau i symud y gwaith ymlaen. Y pwyllgor yn croesawu'r bwriad i gydweithredu'n ehangach gydag asiantaethau eraill perthnasol ac yn gofyn am ddiweddariad.

## 7. Strategaeth Llesiant Staff

*Blaengraffu / Craffu cefnogaeth llesiant staff*

Rhoddwyd ystyriaeth i'r Strategaeth ddrafft a oedd yn manylu ar brif amcanion y strategaeth er mwyn gwireddu gweledigaeth o gyd-weithio i wella llesiant ar draws holl weithlu'r Cyngor gan greu'r amgylchedd gwaith gorau posib er mwyn sicrhau gweithlu iach, gwydn a chynhyrchiol sy'n gallu gweithio hyd eithaf eu gallu i wasanaethu trigolion Gwynedd.

***Effaith Craffu*** – Sicrhau bod y strategaeth yn cyfarch yr heriau o ran ôl-effaith cyfnod y pandemig ymysg y gweithlu a chostau absenoldebau staff oherwydd salwch. Nodi pryder ynglŷn â'r lefelau uchel o absenoldebau staff gan ofyn bod diweddariadau ar y strategaeth yn y dyfodol yn manylu ar ddata penodol, megis cymhariaeth dros gyfnodau, ac ati.

## 8. Cyllidebau Refeniw Ysgolion

*Effaith ar ysgolion Gwynedd*

Ystyriwyd effaith toriadau a newidiadau demograffeg ar gyllidebau ysgolion, lefelau staffio, trefniadau gormodedd, cefnogaeth i ysgolion, yr effaith ar ddosbarthiadau a'r hyfforddiant ar gael i staff ysgol a llywodraethwyr i ddelio gyda'r maes.

***Effaith Craffu*** – Derbyn cadarnhad o sefyllfa gyllidol ysgolion Gwynedd yn gyffredinol. Atgyfnerthu'r angen i'r pwyllgor graffu'r Strategaeth Addysg ddrafft pan yn amserol.

## 9. Cludiant Addysg

*Gorwariant yn y maes*

Craffwyd y rhesymau am y gorwariant, y camau gweithredu sydd wedi'u cymryd mewn ymateb i'r sefyllfa a'r opsiynau dan ystyriaeth o ran trefniadau cludiant addysg i'r dyfodol er mwyn ceisio rhesymoli a lleihau'r costau ble'n ymarferol bosib'.

***Effaith Craffu*** – Amlygu'r angen i fod yn ymwybodol o anghenion penodol rhai grwpiau o blant wrth gynllunio'r ddarpariaeth. Nodi pwysigrwydd darpariaeth teithio i'r coleg ar gyfer pobl ifanc yn Nwyfor a Meirionnydd.

Gofyn i'r Aelod Cabinet Addysg gysylltu gyda Llywodraeth Cymru yng nghyswllt cyflwyno tocyn teithio am ddim i bobl ifanc 16-21 oed er mwyn lleihau'r pwysau ar y Cyngor i ddarparu trafnidiaeth am ddim, ac i hwyluso teithio i'r gwaith, i goleg neu chweched dosbarth.

**10. Cynllun Economi Gwynedd**
*Blaengraffu / Cynllun Strategol*

Derbyniwyd adroddiad yn manylu ar y gwaith i ddatblygu Cynllun Economi newydd i Wynedd.

***Effaith Craffu*** - Mewnbwn craffu ar gyfeiriad y gwaith ac amlygu materion pellach y dylid eu hystyried wrth greu'r Cynllun. Penderfynwyd y byddai'r Pwyllgor yn craffu'r cynllun drafft yn ystod 2025/26.

**11. Polisi Iaith Addysg – Y Drefn Ymgysylltu a'r Polisi Drafft**
*Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Gymraeg*

Bu i'r Pwyllgor ethol cynrychiolwyr i fynychu sesiwn ymgysylltu gyda chynrychiolwyr o'r Pwyllgor Iaith i drafod y polisi iaith addysg ym mis Rhagfyr 2024. Craffwyd y drefn ymgysylltu yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 13 Chwefror 2025.

Yng nghyfarfod 10 Ebrill 2025, craffwyd y Polisi Iaith Addysg Drafft a ddatblygwyd gan yr Adran Addysg a Meirion Prys Jones (Ymgynghorydd allanol). Rhoddwyd ystyriaeth i gyfeiriad strategol y polisi drafft a'r bwriad i osod uchelgais i sicrhau fod plant a phobl ifanc y sir yn tyfu i fod yn ddefnyddwyr Cymraeg hyfedr ac yn datblygu medrau dwyieithog neu amlieithog o fewn Gyfundrefn Addysg Gwynedd.

***Effaith Craffu*** – Adnabod yr angen i edrych yn fanylach ar y Polisi Iaith Addysg Drafft. Gwneud cais i'r Fforwm Craffu i flaenoriaethu adnoddau ar gyfer ffurfio grŵp tasg a gorffen, gyda'r brîff i edrych ar eiriad y polisi drafft gan ystyried os oes angen gwneud awgrymiadau i'r Aelod Cabinet / Adran Addysg, ac adrodd yn ôl i'r pwyllgor yng nghyfarfod 19 Mehefin 2025.

**12. Cyfundrefn Addysg Drochi**
*Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Gymraeg*

Craffwyd diweddariad am y broses werthuso yng nghyd-destun y gwerthusiad o'r Gyfundrefn Drochi. Adroddwyd bod tîm ymchwil o Brifysgol Bangor yn cynnal gwerthusiad o'r gyfundrefn ac y disgwylid casgliadau'r gwerthusiad.

***Effaith Craffu*** – Penderfynu craffu Cynllun Gweithredu Argymhellion Gwella'r Gyfundrefn Addysg Drochi.

**13. Gwasanaeth Ieuenctid**
*Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Yfory*

Cyfle i roi arweiniad ar gyfeiriad gwaith y Gwasanaeth Ieuenctid i'r dyfodol a thrafod os yw'n cyfarch anghenion pobl ifanc Gwynedd ac yn cyflawni ei hamcanion yn dilyn yr ailstrwythuro yn 2018.

***Effaith Craffu*** – Argymell i'r Aelod Cabinet / Adran Addysg bod angen sicrhau cysondeb darpariaeth ar draws y Sir; adnabod ffyrdd o ymgysylltu'n ehangach gyda phobl ifanc ac yn arbennig grwpiau penodol o bobl ifanc; bod angen ymgysylltu â Chynghorau Tref a Chymuned gyda'r bwriad i gynyddu'r nifer o glybiau cymunedol; a bod angen parhau i weithio gyda phartneriaid i sicrhau'r ddarpariaeth orau.

**14. Anghenion Dysgu Ychwanegol yn y prif lif ac Ysgolion Arbennig**
*Craffu'r ddarpariaeth addysg anghenion dysgu ychwanegol (ADY)*

Craffwyd y ddarpariaeth gan ystyried y cynnydd a wnaed i sicrhau cydymffurfio â Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Cymru 2018.

***Effaith Craffu*** - Gofyn i'r Aelod Cabinet Addysg edrych ar ffyrdd o wella'r ddarpariaeth a hwyluso pethau i blant yn y prif lif sydd gydag anghenion dwys ond sydd ddim yn cyrraedd y trothwy i dderbyn cefnogaeth; edrych ar ffyrdd i barhau i warchod y gyllideb i ysgolion arbennig a monitro bod arian yn cael ei wario yn briodol ac yn dilyn y canllawiau; ohebu gyda Llywodraeth Cymru i ddatgan pryder am ddiffyg arian ac adnoddau sydd ar gael ar gyfer ADY a'r heriau sy'n wynebu ysgolion.

## Pwyllgor Craffu Cymunedau

Adran Amgylchedd, Adran Priffyrdd, Peirianneg a YGC (Ymgynghoriaeth Gwynedd), Cynllun Datblygu Lleol, Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, Trosedd ac Anrhefn a'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur

**15. Cyfarwyddyd Erthygl 4 – Ymgynghoriad Cyhoeddus**
*Blaengraffu / Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Glyd*

Rhoddwyd ystyriaeth i'r bwriad i gyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 i ddiddymu hawliau datblygu a ganiateir yn gysylltiedig â newid defnydd tŷ preswyl (defnydd C3) i ddefnydd gwyliau. Boed yn ddefnydd fel ail gartref (defnydd C5), llety gwyliau tymor byr (defnydd C6) neu'n ddefnydd cymysg ohonynt. Craffwyd sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgysylltu cyhoeddus ac ymateb y Cyngor i'r sylwadau.

***Effaith Craffu*** - Blaengraffu yn drylwyr er sicrhau bod ystyriaeth ddigonol wedi ei roi i wahanol ffactorau. Argymell i'r Cabinet y dylid cadarnhau'r cyfarwyddyd.

**16. Clwyf Gwywiad yr Onnen**
*Mater ar y gofrestr risg*

Craffwyd y rhaglen waith ar gyfer archwilio a thrin clwyf gwywiad yr onnen. Rhoddwyd ystyriaeth i faterion gan gynnwys coed ar dir preifat, y defnydd o dechnoleg, gwaredu coed a dorrwyd, y posibilrwydd o sefydlu siop un stop ac adolygiad o'r Polisi Rheoli Coed.

***Effaith Craffu*** – Derbyn sicrwydd bod cynnydd yn cael ei wneud i liniaru'r risg.

**17. Ffioedd Parcio**
*Blaengraffu*

Rhoddwyd ystyriaeth i'r cyd-destun ariannol ac ystyried opsiynau posib o ran codi ffioedd parcio yn gyffredinol a'r syniad o'u codi'n flynyddol ar sail chwyddiant.

***Effaith Craffu*** – Argymell i'r Cabinet y dylid ystyried cynyddu ffioedd parcio yn flynyddol neu bob dwy flynedd gan roi ystyriaeth i sefyllfa chwyddiant; ni ddylid addasu'r trefniadau gorfodaeth yn y meysydd parcio arhosiad byr oherwydd yr effaith ar yr economi leol; dylid ystyried cynyddu ffioedd ymhellach ym meysydd parcio mewn ardaloedd twristiaeth penodol; a dylid ystyried cynyddu ffioedd safleoedd Arosfan yn flynyddol.

**18. Datblygiadau yn y maes Cludiant Cyhoeddus**
*Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Werdd*

Mae'r maes cludiant cyhoeddus wedi ei flaenoriaethu yng Nghynllun y Cyngor 2023-28. Nodir weledigaeth glir o "adolygu ein darpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus bresennol gyda'r nod o ddatblygu rhwydwaith cludiant cyhoeddus fydd yn gyfleus, yn ddibynadwy ac yn rhesymol ei gost er mwyn caniatáu i drigolion Gwynedd deithio yn hwylus bob diwrnod o'r wythnos."

Craffwyd yr adolygiad traws-sirol o'r rhwydwaith bysiau gan roi ystyriaeth i ddatblygiadau rhanbarthol a chenedlaethol ac effaith y datblygiadau ar Wynedd.

***Effaith Craffu*** – Amlygu'r angen i gynnwys yr aelodau lleol mor fuan â phosib wrth ystyried newidiadau i wasanaethau bws a bod angen cryfhau'r trefniadau ymgynghori gyda chymunedau.

**19. Gwasanaethau Casglu Gwastraff ac Ailgylchu**
*Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Werdd*

Craffwyd y cynnydd yn y rhaglen waith i sicrhau fod y maes gwastraff ac ailgylchu yn cynnig gwasanaethau effeithlon, safonol a diogel, ac yn parhau i gyfarch targedau ailgylchu uchelgeisiol Llywodraeth Cymru dros y blynyddoedd nesaf. Rhoddwyd sylw i'r rhwystrau a'r cyfleoedd i gyflawni yn ogystal â'r sefyllfa ddiweddaraf o ran gorwariant.

***Effaith Craffu*** – Sicrhau bod cynnydd ar wireddu'r prosiect blaenoriaeth yng Nghynllun y Cyngor.

**20. Gorchmynion Rheoli Cŵn**
*Sicrwydd o ran gweithrediad*

Ystyriwyd gweithrediad y gorchmynion, y nifer o gosbau penodedig a roddwyd i berchnogion a'r gwaith i amlygu cyfrifoldebau perchnogion cŵn.

***Effaith Craffu*** – Argymell bod yr Adran Priffyrdd, Peirianneg a YGC yn cysylltu gyda Chynghorwyr i gynnig cyflenwad o'r pecynnau bagiau baw cŵn i'w defnyddio yn eu cymunedau.

## 21. Cynllunio a Chymunedau Cymraeg

*Sicrwydd o ran gweithrediad*

Adnabuwyd yr angen i sicrhau bod y drefn gynllunio yn ystyried o ddifri effaith datblygiadau (mawr a man) ar gymunedau Cymraeg. Ystyriwyd y cyd-destun statudol a'r cyd-destun polisi cynllunio cenedlaethol a lleol.

***Effaith Craffu*** – Enghraifft o arfer da wrth ganolbwyntio ar un maes. Gofyn i Lywodraeth Cymru i adolygu 'Polisi Cynllunio Cymru' a 'Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 20: Cynllunio a'r Gymraeg' er mwyn sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn cael ystyriaeth briodol.

Gofyn i'r Cymdeithasau Tai ddarparu data i'r Cyngor er mwyn asesu gwybodaeth am yr iaith Gymraeg ym maes cynllunio.

Ynghyd ag amlygu'r angen i gysylltu gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Phrifysgol Bangor i'w hannog i ddatblygu hyfforddiant addas ar gyfer asesu effaith ieithyddol datblygiadau cynllunio; yr angen i atgoffa Cynghorau Cymuned a Thref o'u rhyddid i gyflwyno sylwadau am effaith ieithyddol posib gall datblygiad cynllunio lleol ei gael ar yr ardal; a rhoi ystyriaeth i gynnal hyfforddiant cynllunio ieithyddol i Gynghorwyr.

## 22. Diweddariad Blynyddol gan Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn

*Rôl y Pwyllgor fel Pwyllgor Trosedd ac Anrhefn*

Ystyriwyd trosolwg o weithgareddau Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn am y cyfnod 2024/25.

***Effaith Craffu*** – Derbyn sicrwydd o ran gwaith y Bartneriaeth dros y cyfnod ynghyd â blaenoriaethau a chyfeiriad y gwaith i'r dyfodol. Argymell bod y Bartneriaeth yn ychwanegu gwaith ataliol mewn cyswllt â throseddau rhywiol yn flaenoriaeth benodol ar gyfer y dyfodol.

## 23. Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur: Adroddiad Blynyddol 2023/24

*Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Werdd*

Blaengraffwyd yr Adroddiad Blynyddol a oedd yn adrodd ar y cynnydd yn gweithredu'r Cynllun.

***Effaith Craffu*** - Argymell y dylid cynnwys mwy o wybodaeth yn yr Adroddiad Blynyddol am yr hyn sy'n gyfrifol am y canrannau allyriadau carbon. Gofyn i Arweinydd y Cyngor lobïo Llywodraeth Cymru yng nghyswllt adolygu'r fethodoleg o fesur allyriadau carbon sy'n deillio o brosesau caffael. Yn ogystal ag adnabod yr angen i'r pwyllgor graffu casgliadau adolygiad o'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur cyn i'r Cabinet ei ystyried.

**24. Adroddiad Cynnydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn**
*Rôl y Pwyllgor i graffu gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus*

Craffwyd trefniadau cyflawni'r Bwrdd ar gyfer 2024-25 yn seiliedig ar Gynllun Llesiant 2023-28 Gwynedd a Môn.

**Effaith Craffu** – Er mwyn sicrhau bod trefniadau cyflawni'r Bwrdd yn arwain at wireddu'r amcanion llesiant, amlygu'r angen i adroddiadau i'r dyfodol gynnwys gwybodaeth/data ar gynnydd o ran cyflawni.

**25. Cyflwyno pwyntiau gwefru cyhoeddus ar gyfer cerbydau trydan**
*Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Werdd*

Mae'r Cyngor yn datblygu rhwydwaith o dros gant o bwyntiau gwefru ar gyfer cerbydau trydan ar draws Gwynedd. Craffwyd y gwaith a gyflawnwyd hyd yma wrth ddatblygu rhwydwaith peiriannau gwefru, a'r hyn oedd ar y gweill dros y cyfnod nesaf.

***Effaith Craffu*** - Argymell y dylid bod isafswm o ddau bwynt gwefru ym mhob safle. Adnabod yr angen i dderbyn diweddariad gan gynnwys y Cynllun Busnes a gwybodaeth am y ddarpariaeth yn ardaloedd gwledig Gwynedd.

**26. Toiledau Cyhoeddus**
*Blaengraffu / Dilyniant yn dilyn craffu yng nghyfarfod 5 Hydref 2023*

Craffwyd diweddariad ar weithrediad y Strategaeth Toiledau Cyhoeddus a oedd yn cynnwys y cynllun gweithredu, y ffynonellau ariannu i wella'r ddarpariaeth, yr amserlen ddiweddaraf o ran cyflwyno technoleg talu di-gyffwrdd a'r sefyllfa o ran incwm.

***Effaith Craffu*** – Craffu cynnydd o ran gwireddu'r strategaeth.

**27. Torri Gwair a Chynnal Ymylon Ffyrdd Sirol**
*Dilyniant yn dilyn craffu yng nghyfarfod 22 Chwefror 2024*

Mae dyletswyddau statudol ar awdurdodau lleol i gynnal a gwella bioamrywiaeth. Cyflwynwyd diweddariad ar y trefniadau rheoli ymylon ffyrdd gan gynnwys gwybodaeth am y contract torri gwair gwledig a'r treialon torri a chasglu i hyrwyddo anghenion bywyd gwyllt a bioamrywiaeth.

***Effaith Craffu*** – Cefnogi bwriad yr Adran Priffyrdd, Peirianneg a YGC i ymestyn y treialon torri a chasglu i ardal Arfon.

Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd, Iechyd a'r Adran Tai ac Eiddo

**28. Gallu'r Cyngor i weithredu Cynllun Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (Deprivation of Liberty Safeguards – DoLS)**
*Mater ar y gofrestr risg*

Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid (DoLS) yw'r weithdrefn gyfreithiol pan fo angen amddifadu unigolyn o'u rhyddid pan nad oes ganddynt y gallu (capasiti) i gytuno i'w gofal a'i driniaeth er mwyn eu cadw'n ddiogel rhag niwed. Mae'r her barhaus i gydymffurfio â dyletswyddau statudol yn ymwneud â DoLS yn rhoi'r Cyngor mewn sefyllfa o risg o gael ei gosbi'n ariannol.

***Effaith Craffu*** – Datgan gwir bryder am y sefyllfa ac amharodrwydd i dderbyn y risg a amlygwyd yn yr adroddiad. Gofyn i'r Aelod Cabinet Oedolion drafod ymhellach efo'r Adran a chreu cynllun gweithredu. Nodi dymuniad i dderbyn gwybodaeth bellach gan arbenigwr. (*gweler tudalen 22 am fwy o wybodaeth*)

**29. Adroddiad Blynyddol y Panel Strategol Diogelu 2023/24**
*Sicrwydd o ran y trefniadau diogelu corfforaethol*

Mae'r Panel Strategol Diogelu wedi ei sefydlu er mwyn edrych ar ddiogelu fel mater corfforaethol, trawsadrannol. Craffwyd gwaith y panel yn ystod 2023/24.

***Effaith Craffu*** - Sicrhau bod trefniadau diogelu corfforaethol y Cyngor yn addas i bwrpas ac yn gadarn.

**30. Datblygu darpariaeth breswyl i blant mewn gofal mewn grŵp bychan**
*Cynllun y Cyngor 2023-28 – Gwynedd Ofalgar*

Bwriad y prosiect blaenoriaeth i'w gwella profiadau plant gydag anghenion dwys a chymhleth sydd yng ngofal y Cyngor ac ar hyn o bryd yn gorfod gadael y sir neu Gymru er mwyn cael darpariaeth addas. Nod y cynllun yw disodli'r angen i allanoli gyda darpariaeth a gyflenwir gan y Cyngor, gan lwyddo i ddarparu gofal preswyl i blant mewn gofal am gost sylweddol is na'r costau cyfartalog presennol.

***Effaith Craffu*** – Derbyn sicrwydd bod cynnydd yn digwydd i gyflawni'r prosiect blaenoriaeth. Amlygu'r angen i graffu ymhellach yn dilyn cyfnod o sefydlu'r ddarpariaeth.

### 31. Gwasanaeth Gofal Cartref

*Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Ofalgar*

Craffwyd effeithiolrwydd y ddarpariaeth gofal cartref ar draws y sir gan roi sylw penodol i gynnal a gwella'r gwasanaeth i drigolion.

***Effaith Craffu*** – Nodi pryder am y rhestrau aros am ofal cartref mewn rhai ardaloedd. Gofyn am ddata rhestrau aros ar draws y sir er mwyn galluogi cymharu ardaloedd. Gofynnwyd i'r Aelod Cabinet Oedolion ddiweddaru'r Pwyllgor ar waith y Prosiect Gofal Cartref gan gynnwys gwybodaeth am leihau costau a gwella ansawdd data.

### 32. Darpariaeth dementia a thrafnidiaeth i rai sydd gyda dementia i fynychu gofal dydd

*Cynllun y Cyngor 2023-28 – Gwynedd Ofalgar*

Pryder gan rai aelodau nad oes trafnidiaeth ar gael i bobl sy'n byw gyda Dementia fynychu gofal dydd a bod hyn yn arwain at ynysu, diffyg cymdeithasu a diffyg egwyl i ofalwyr di-dâl/teulu. Craffwyd y ddarpariaeth gofal dydd presennol, y gefnogaeth ar gael i unigolion sy'n byw gyda dementia, y rhwystrau ac ystyriaethau, a'r camau nesaf.

***Effaith Craffu*** - Datgan pryder nad yw'r ddarpariaeth yn gyson ar draws y Sir a phwysleisio pwysigrwydd rhoi egwyl i ofalwyr di-dâl. Gofyn am adroddiad pellach am yr adolygiad Polisi Trafnidiaeth ac adolygiad Gofal Dydd er mwyn i'r aelodau roi mewnbwn amserol.

### 33. Adroddiad Blynyddol 2023-24 - Gweithdrefn Cwynion, Ymholiadau a Diolchiadau - Plant a Chefnogi Teuluoedd ac Oedolion, Iechyd a Llesiant

*Sicrwydd o ran y trefniadau ar gyfer delio gyda chwynion ym maes gwaith gofal*

Craffwyd Adroddiad Blynyddol ar weithrediad y Weithdrefn Sylwadau a Chwynion gan ystyried y trefniadau ar gyfer delio'n effeithiol â chwynion a dderbyniwyd gan ddefnyddwyr gwasanaeth a'u cynrychiolwyr.

***Effaith Craffu*** – Derbyn sicrwydd o ran y trefniadau ar gyfer delio gyda chwynion ym maes gwaith gofal.

### 34. Polisi Codi Tâl am Ofal

*Blaengraffu*

Adroddwyd ar y bwriad i addasu'r polisi codi tâl am ofal er mwyn rhoi'r hawl i'r Cyngor godi ffioedd am rai gwasanaethau gofal a chymorth lle nad oes ffi wedi bod yn cael ei godi yn hanesyddol. Craffwyd yr argymhelliad i addasu'r polisi ac ymgynghori ar y mater, cyn i'r Cabinet i ddod i benderfyniad.

***Effaith Craffu*** – Cytuno i'r egwyddor o ymchwil pellach i addasu'r polisi codi tâl am ofal. Gofyn am adroddiad manylach yn cynnwys union ffioedd i'w codi a'r fframwaith codi tâl.

**35. Cyfarfod penodol i graffu y maes tai cymdeithasol**
*Cynllun y Cyngor 2023-28 – Gwynedd Glyd*

Adnabuwyd yr angen i gael cyfarfod i ganolbwyntio ar y maes tai cymdeithasol. Derbyniwyd ymatebion i gwestiynau a ddarparwyd ymlaen llaw i'r Adran Tai ac Eiddo a'r cymdeithasau tai sydd yn gweithredu yng Ngwynedd. Bu i gynrychiolwyr o Adra, Clwyd Alyn, Grŵp Cynefin a Thai Gogledd Cymru fynychu.

***Effaith Craffu*** – Enghraifft o arfer da wrth ganolbwyntio ar un maes. Trafodaeth adeiladol gyda phartneriaid allanol er mwyn sicrhau cydweithio effeithiol er mwyn diwallu anghenion pobl Gwynedd.

Gofyn am wybodaeth ychwanegol gan yr Adran Tai ac Eiddo ac iddynt drafod gyda'r cymdeithasau tai o ran darparu ffurflen safonol i aelodau ei gwblhau ar ran tenantiaid pan fo angen gwaith cynnal a chadw gan gynnwys darparu pwyntiau cyswllt gwahanol.

Datgan pryder am ddiffyg mewnbwn gan y Cyngor pan fo cyfnewidiadau tai yn digwydd; goblygiadau posib 'Papur Gwyn ar roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru' i'r Polisi Gosod Tai; diffyg gostyngiad yn y niferoedd ar y Gofrestr Tai Cyffredin dros y deg mlynedd diwethaf; a'r nifer sy'n ddigartref yn y Sir.

**36. Archwiliad ar y cyd gan Arolygaeth Gofal Cymru a Archwilio Cymru – Hydref 2024**
*Sicrwydd bod gweithredu ar ganfyddiadau yr archwiliad*

Rhoddwyd sylw i lythyr gan Arolygaeth Gofal Cymru 'Ymweliad Gwiriad Gwella â Chyngor Gwynedd – Gwasanaethau Oedolion' ac adroddiad Archwilio Cymru 'Gofal Cartref – Cyngor Gwynedd' ynghyd â'r rhaglenni gwaith i ymateb i'w hargymhellion.

***Effaith Craffu*** - Trafodaeth gydag archwilwyr allanol am eu canfyddiadau a'u hargymhellion. Craffu'r rhaglenni gwaith ac adnabod yr angen i dderbyn adroddiadau cynnydd er sicrhau gweithrediad.

**37. Iechyd – cyfle i drafod pryderon amrywiol gyda chynrychiolwyr o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**
*Pryder yn y gymuned a'r effaith ar drigolion*

Derbyniwyd ymatebion gan gynrychiolwyr y Bwrdd Iechyd i gwestiynau a ddarparwyd ymlaen llaw. Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau pellach. Yn ystod y drafodaeth, trafodwyd materion megis gweledigaeth y Bwrdd Iechyd, doctoriaid a gwasanaethau dyddiol eraill, canoli gwasanaethau, gwasanaeth fasciwlar, iechyd meddwl a gwasanaethau ataliol canolraddol.

***Effaith Craffu*** – Trafodaeth adeiladol gyda'r Bwrdd Iechyd gan amlygu materion sydd yn codi yn ein cymunedau.

**38. Cynllun Gweithredu Tai**

*Cynllun y Cyngor 2023-28 – Gwynedd Glyd*

Nod y Cynllun Gweithredu Tai yw "Sicrhau bod gan bobl Gwynedd fynediad at gartref addas o safon, sy'n fforddiadwy ac sy'n gwella eu hansawdd bywyd". Craffwyd cynnydd prif brosiectau'r Cynllun a'r camau nesaf.

***Effaith Craffu*** – Sicrhau bod cynnydd ar wireddu'r prosiect blaenoriaeth yng Nghynllun y Cyngor.

Gofyn i'r Aelod Cabinet Tai ac Eiddo ail edrych ar y cynllun Tŷ Gwynedd er mwyn ystyried os yw'n darparu gwerth am arian ac a ddylid buddsoddi'r arian mewn prosiect arall o fewn y Cynllun Gweithredu Tai.

**39. Gwasanaeth Iechyd Meddwl Gwynedd**

*Cynllun y Cyngor 2023-28 – Gwynedd Ofalgar*

Craffwyd cyfeiriad gwaith y Cyngor yn y maes yn dilyn cam cyntaf adolygiad o'r gwasanaeth a chynlluniau i sefydlu model gwaith newydd yn 2023/24. Derbyniwyd adroddiad cynnydd ar y model gwaith newydd.

***Effaith Craffu*** – Craffu gweithrediad yn dilyn ail-fodelu'r gwasanaeth.

**40. Adroddiad Cynnydd ar Raglen Waith Tîm Awtistiaeth**

*Argymhelliad yn deillio o waith Grŵp Tasg a Gorffen / Cynllun y Cyngor 2023-28 – Gwynedd Ofalgar*

Derbyniwyd adroddiad cynnydd ar raglen waith y Tîm Awtistiaeth. Manylwyd ar fynediad i wybodaeth a chyngor am y gwasanaethau sydd ar gael; cefnogaeth; materion gweithlu/hyfforddiant, gweithio mewn partneriaeth a'r sefyllfa gyllidol.

***Effaith Craffu*** - Annog yr Aelodau Cabinet i ysgrifennu i Lywodraeth Cymru yn holi am arian parhaol i'r Tîm Awtistiaeth.

Gellir gweld rhaglenni a chofnodion cyfarfodydd y Pwyllgorau Craffu o dan y linc yma – **www.gwynedd.llyw.cymru/craffu**

# Ymchwiliad Craffu

Yn dilyn cymeradwyaeth y Fforwm Craffu i flaenoriaethu adnoddau, mabwysiadodd y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi brîff ar gyfer **Ymchwiliad Craffu Trefniadau Diogelu mewn Ysgolion** ar 13 Chwefror 2025.

Yr aelodau sydd wedi bod yn ymgymryd â gwaith yr ymchwiliad yw:

- Y Cynghorwyr Dawn Lynne Jones, Cai Larsen, Gwynfor Owen a Richard Glyn Roberts
- Aelod Cyfetholedig - Sharon Roberts (Cynrychiolydd Rhieni / Llywodraethwyr Arfon)

Y prif gwestiwn mae'r ymchwiliad yn ei gyfarch yw:

**'A yw trefniadau diogelu yn ysgolion y sir yn briodol ac yn cael eu gweithredu'n gyson?'**

Etholwyd y Cynghorydd Cai Larsen yn Gadeirydd yr ymchwiliad yn y cyfarfod cyntaf.

Cynhaliwyd cyfres o bedwar cyfarfod ar ddechrau'r ymchwiliad er mwyn deall gofynion cyfreithiol ac ystyried ymarfer da ym maes diogelu mewn ysgolion.

Dyma'r cwestiynau allweddol y rhoddwyd sylw iddynt:

- Beth yw'r gofynion gan gynnwys arweiniad mewn cylchlythyrau a chanllawiau ynghylch 'gofynion diogelu' mewn ysgolion?
- Beth yw trefniadau diogelu ar gyfer ysgolion yng Ngwynedd?
- Sut mae'r cydweithio rhwng ysgolion/yr Adran Addysg a'r Adran Plant yn gweithio?
- Beth yw canfyddiadau/barn Estyn (y rheoleiddwyr yn y maes) ar drefniadau yn ysgolion Gwynedd?
- A oes esiamplau o ymarfer da yn genedlaethol, a sut y byddai trefniadau diogelu o'r radd flaenaf yn edrych mewn ysgolion? (hy sut y gellir sicrhau trefniadau da)
- Beth mae'r ysgolion yn ddweud am eu trefniadau diogelu a'r gefnogaeth gan yr awdurdod – a oes themâu penodol?

Byddwn yn adrodd ymhellach ar waith yr ymchwiliad yn yr adroddiad blynyddol nesaf yn dilyn cyflwyno adroddiad drafft yr ymchwiliad craffu i'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi.

# Datblygiadau 2024-25

Yn adroddiad blynyddol 2023/24, nodwyd y bwriad i gyflwyno newidiadau i'n trefniadau ymarferol yn ystod 2024/25 yn dilyn adolygiad o'n trefniadau gan Archwilio Cymru a hyfforddiant 'Arfer Gorau Pwyllgorau Craffu' a ddarparwyd gan hyfforddwyr allanol.

Cydweithiodd y Fforwm Craffu a'r swyddogion craffu i ddatblygu newidiadau ymarferol i'n trefniadau craffu er mwyn gwneud defnydd mwy effeithiol o amser yng nghyfarfodydd y pwyllgorau craffu.

Dyma fanylu ar y gwahanol elfennau sydd gyda'i gilydd yn ymgais i gryfhau ein trefniadau ymhellach gyda'r nod o sicrhau craffu effeithiol.

## CYFARFODYDD ANFFURFIOL

ER MWYN GWELLA FFOCWS AC EFFAITH Y CYFARFODYDD ANFFURFIOL – TREIALU CYFARFODYDD AR LEIN, AWR O HYD, TUA 5 WYTHNOS CYN Y CYFARFOD NESAF

**Ffocws ar gwestiynau**

- Cyfle i finiogi'r cwestiynau a gyflwynwyd i'r gweithdai.
- Y cwestiynau yn sail i'r adroddiad i'r pwyllgor.
- Templed adroddiad craffu newydd i gefnogi hyn.
- Cwestiynau lleol – Cyfle i holi os oes materion lleol, sydd, o'u cyfuno, yn codi thema a chwestiwn strategol i'w ychwanegu fel cwestiwn i'w ateb yn yr adroddiad.

**Asesu Perfformiad / Effaith Craffu**

- Asesu effaith craffu gan sgorio fesul eitem ar y bwrdd dartiau.
- Hunan arfarnu gweithrediad y pwyllgor a dysgu wrth fynd ymlaen.

**Adrodd yn ôl**

- Cynrychiolwyr yng nghyfarfodydd herio perfformiad/grwpiau craffu/fforymau/byrddau i adrodd yn ôl.

# CYFARFODYDD BRIFFIO

CYFARFODYDD BRIFFIO CYN Y PWYLLGOR I GYCHWYN AM 10 O'R GLOCH A FFOCWS AR Y STRATEGAETH GWESTIYNU

**Strategaeth Gwestiynu**

- Amser digonol i fynd drwy'r strategaeth gwestiynu fesul eitem ac adnabod pwy sy'n gofyn beth.
- Gwirio os wedi adnabod yr holl wahanol elfennau sydd angen eu craffu.
- Cyfle i holi os oes materion lleol, sydd, o'u cyfuno, yn codi thema a chwestiwn strategol i'w ofyn yn y pwyllgor.

# PWYLLGOR

CWESTIYNU CRAFF CYN DOD I BENDERFYNIAD OS YW'R PWYLLGOR WEDI EI FODLONI NEU OES ANGEN GWNEUD ARGYMHELLION CAMPUS

**Cyflwyniadau**

- Sefydlu trefn mai 5 MUNUD YN UNIG sydd gan Aelod Cabinet neu Bennaeth i gyflwyno eitem yn y Pwyllgor (gan fod pawb wedi paratoi a darllen o flaen llaw).
- Dim pasio'r baton i swyddogion wedyn, swyddogion i ateb cwestiynau yn unig.
- Cadeirydd i agor y drafodaeth h.y. symud ymlaen i gwestiynau yn dilyn 5 munud.

**Ffocws fesul eitem**

- Bydd y cyfarfod briffio yn galluogi'r pwyllgor i roi ffocws ar gwestiynau.
- Dylid peidio cyflwyno barn, rhoi sylwadau neu ail adrodd – rôl i Aelodau unigol a'r Cadeirydd.
- Ceisio neilltuo amser penodol i eitem a chadw at hynny.

**Argymhellion**

- Penderfynu os yn gyfforddus gyda'r cyfeiriad neu a oes angen argymhelliad penodol.

Byddwn yn ystyried effaith y newidiadau i'n trefniadau ymarferol ac os oes angen eu haddasu yn ystod 2025/26.

# Trefniadau Tracio

Un o'r argymhellion a oedd yn deillio o adolygiad Archwilio Cymru i effeithlonrwydd ein trefniadau craffu oedd:

*"Dylid cryfhau'r broses o adrodd ar benderfyniadau pwyllgorau craffu a mabwysiadu trefn olrhain ffurfiol, er mwyn cael y gwerth am arian gorau ac amlygu'n gyhoeddus cyfraniad y gyfundrefn craffu i drefniadau llywodraethu'r Cyngor."*

Roedd trefniadau anffurfiol i dracio argymhellion craffu yn bodoli eisoes. Rhoddodd y Fforwm Craffu ystyriaeth i sefydlu trefn dracio ffurfiol gan ddod i'r casgliad y dylid rhannu'r wybodaeth gyda'r aelodau craffu bob 6 mis. Rhannwyd diweddariad ar benderfyniadau / argymhellion ers Mai 2022 gyda'r aelodau ym mis Rhagfyr 2024.

Gweler isod esiampl o effaith craffu yn deillio o'r gwaith tracio:

"Ym mis Mehefin 2024, bu i mi gyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Craffu Gofal i rannu' risg mae Cyngor Gwynedd yn ei wynebu o ran ein sefyllfa Amddifadu Rhag Colli Rhyddid (DoLS).

Roedd penderfyniad unfrydol nad oedd yr Aelodau'n fodlon derbyn y risg i'r Cyngor a bu cais i ail edrych ar y sefyllfa a chanfod datrysiad.

'Rwy'n falch o adrodd bod bid llwyddiannus wedi ei gyflwyno i gyflogi 2 Asesydd Budd Gorau ar sail barhaol. Bydd y swyddi hyn, ynghyd â'r grant blynyddol gan Llywodraeth Cymru yn ein cynorthwyo i fynd i'r afael a'r rhestr aros a sicrhau bod y risgiau i'r Cyngor yn lleihau'n sylweddol.

Hoffwn ddiolch i'r Aelodau am y gefnogaeth a byddwn yn falch o roi diweddariad pellach unwaith y bydd y swyddi ychwanegol wedi cael effaith."

**Pennaeth Cynorthwyol Oedolion: Diogelu, Sicrwydd Ansawdd, Iechyd Meddwl a Diogelwch Cymunedol**

# Herio Perfformiad

Mae cyfarfodydd herio perfformiad yn cael eu cynnal bob yn ail fis (ac eithrio mis Ebrill a mis Awst), fesul maes gwaith adrannau'r Cyngor.

Yn 2024/25, bu i gynrychiolwyr y pwyllgorau craffu dderbyn gwahoddiad i ddau gyfarfod, er mwyn:

- Cael blas o faint o afael sydd ar faterion perfformiad o fewn yr adrannau unigol.
- Adnabod, os oes angen, unrhyw faterion perfformiad allai deilyngu sylw mewn pwyllgor craffu ffurfiol maes o law.

Dyma'r aelodau a fynychodd cyfarfodydd herio perfformiad yn ystod 2024/25:

| Addysg | Economi | Gwasanaethau Corfforaethol a Cyfreithiol | Cyllid |
|---|---|---|---|
| Beth Lawton<br>Gwynfor Owen<br>wrth gefn<br>Jina Gwyrfai | Iwan Huws<br>Dewi Owen<br>wrth gefn<br>Jina Gwyrfai | Cai Larsen<br>Huw Rowlands | Cai Larsen<br>Beth Lawton |

| Amgylchedd | Priffyrdd, Peirianneg a YGC |
|---|---|
| Llio Elenid Owen (tan 9 Rhagfyr 2024)<br>Rhys Tudur (tan 5 Rhagfyr 2024) | Stephen Churchman a Rob Triggs<br>wrth gefn - Arwyn Roberts |

| Oedolion, Iechyd a Llesiant | Plant a Chefnogi Teuluoedd | Tai ac Eiddo |
|---|---|---|
| Meryl Roberts<br>Einir Wyn Williams | Gwynfor Owen<br>Einir Wyn Williams | Menna Baines<br>Dewi Jones (tan 9 Rhagfyr 2024) |

Bydd y trefniadau yn newid yn 2025/26 gyda'r drefn o gynrychiolwyr craffu yn mynychu cyfarfodydd herio perfformiad yn dod i ben. Cyflwynir adroddiadau perfformiad i'w craffu yn gyhoeddus mewn cyfarfodydd pwyllgorau craffu ddwywaith y flwyddyn o Fehefin 2025 ymlaen. Y bwriad yw gwella tryloywder gan ddisodli'r drefn o adroddiadau perfformiad yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet.

# Hyfforddiant

Fel yr adroddwyd eisoes, ar gychwyn y gweithdai craffu cynhaliwyd hyfforddiant i aelodau'r pwyllgorau craffu ar faterion i'w hystyried wrth flaenoriaethu a oedd yn cynnwys:

**PWRPAS CRAFFU** **DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL**

**CWESTIYNAU STRATEGOL** **CRAFFU ADWEITHIOL**

**DERBYN SICRWYDD A/NEU GWNEUD ARGYMHELLION**

**ARGYMHELLION CAMPUS** **CRAFFU RHAGWEITHIOL**

**YSTYRIED Y DULL GORAU O GRAFFU** **EFFAITH CRAFFU**

Cynhaliwyd hyfforddiant ar gyfer darpar gadeiryddion ac is-gadeiryddion ym mis Mai 2024. Manylwyd yn yr hyfforddiant ar yr agweddau cyfreithiol, rôl cadeiryddion a materion ymarferol o ran cadeirio cyfarfodydd pwyllgor.

Cyfeiriwyd at yr eitemau safonol ar raglenni pwyllgor – ymddiheuriadau, datgan buddiant personol, materion brys, cofnodion (er cywirdeb yn unig). Ymhelaethwyd ar y drefn o wneud penderfyniadau gan gynnwys sut i ddelio gyda gwelliant i gynnig. Pwysleisiwyd yr angen i sicrhau bod cworwm (o leiaf chwarter aelodau'r pwyllgor sydd â phleidlais yn bresennol) trwy gydol y cyfarfod er mwyn i'r cyfarfod barhau.

Manylwyd ar beth sydd yn gwneud Cadeirydd da:


- Paratoi yn drylwyr
- Trafod cefnogaeth yr is-gadeirydd a'r swyddogion perthnasol o flaen llaw
- Mynychu'r ystafell bwyllgor pan fo cyfarfod yn gyfarfod aml-leoliad os yn bosib
- Gosod y sefyllfa – croesawu, cyflwyno, esboniadau i'r cyhoedd, cadw at y rhaglen, bod yn glir
- Gweithredu'n broffesiynol

Nodwyd bod angen i'r Is-gadeirydd fod yn barod i gamu i mewn i gadeirio cyfarfod ar unrhyw adeg. Ac felly, bod angen iddynt baratoi yn yr un modd â'r cadeirydd. Awgrymwyd iddynt ddefnyddio eu hamser fel is-gadeirydd i ystyried sut y byddent yn ymateb a rheoli'r cyfarfod ym mhob sefyllfa.

Wrth edrych ymlaen at 2025/26, mae'r angen i gynnal hyfforddiant i aelodau craffu ar graffu perfformiad wedi ei adnabod a threfnir i'w ddarparu cyn cyfarfodydd cyntaf y pwyllgorau.

# Ffeithiau am Graffu yng Ngwynedd yn 2024/25


**41 eitem wedi eu craffu mewn cyfarfodydd ffurfiol. (43 llynedd, 33 blwyddyn cynt)**




**45 aelod (allan o 59 sy'n bosib) wedi bod yn rhan o wneud y gwaith craffu pwysig yn ystod y flwyddyn**




**Canrannau - Rheswm dros Graffu**




**Nifer o gyfarfodydd Fforwm Craffu wedi eu cynnal yn ystod y flwyddyn**




**Nifer o eitemau a graffwyd mewn cyfarfod**



# Rhaglen Waith Craffu 2024-25

## PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI

| Dyddiad | Eitemau | Rheswm dros graffu |
|---|---|---|
| **18/07/24** | • Adroddiad Blynyddol GwE | Eitem Blynyddol / Sicrwydd |
| | • Adolygiad Haen Ganol – Gwasanaeth Gwella Ysgolion | Mewnbwn i'r cyfeiriad ar gyfer y dyfodol |
| | • Trefniadau Diogelu mewn ysgolion | Sicrwydd o ran y trefniadau |
| | • Cynllun Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri 2035 | Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Lewyrchus |
| | | |
| **17/10/24** | • Adroddiad cynnydd ar ymateb i argymhellion Estyn | Adroddiad Archwiliwr Allanol |
| | • Trawsnewid addysg ar gyfer plant yn eu blynyddoedd cynnar | Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Yfory |
| | • Strategaeth Llesiant Staff | Blaengraffu / Craffu cefnogaeth llesiant staff |
| | | |
| **12/12/24** | • Cyllidebau Refeniw Ysgolion | Effaith ar ysgolion Gwynedd |
| | • Cludiant Addysg | Gorwariant yn y maes |
| | | |
| **13/02/25** | • Cynllun Economi Gwynedd | Blaengraffu / Cynllun Strategol |
| | • Polisi Iaith Addysg – Y Drefn Ymgysylltu | Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Gymraeg |
| | • Cyfundrefn Addysg Drochi | Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Gymraeg |
| | • Brîff Ymchwiliad Craffu Trefniadau Diogelu mewn Ysgolion | Ymchwiliad Craffu |
| | | |
| **10/04/25** | • Gwasanaeth Ieuenctid | Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Yfory |
| | • Anghenion Dysgu Ychwanegol yn y prif lif ac Ysgolion Arbennig | Craffu'r ddarpariaeth addysg anghenion dysgu ychwanegol |
| | • Polisi Iaith Addysg | Blaengraffu / Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Gymraeg |

## PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU

| Dyddiad | Eitemau | Rheswm dros graffu |
|---|---|---|
| **16/05/24** | • Cyfarwyddyd Erthygl 4 – Ymgynghoriad Cyhoeddus | Blaengraffu / Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Glyd |
| | • Clwyf Gwywiad yr Onnen | Mater ar y gofrestr risg |
| | | |
| **12/09/24** | • Ffioedd Parcio | Blaengraffu |
| | • Datblygiadau yn y maes Cludiant Cyhoeddus | Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Werdd |
| | • Gwasanaethau Casglu Gwastraff ac Ailgylchu | Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Werdd |
| | • Gorchmynion Rheoli Cŵn | Sicrwydd o ran gweithrediad |
| | | |
| **07/11/24** | • Cynllunio a Chymunedau Cymraeg | Sicrwydd o ran gweithrediad |
| | | |
| **23/01/25** | • Diweddariad Blynyddol gan Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn | Rôl y Pwyllgor fel Pwyllgor Trosedd ac Anrhefn |
| | • Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur: Adroddiad Blynyddol 2023/24 | Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Werdd |
| | • Adroddiad Cynnydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn | Rôl y Pwyllgor i graffu gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus |
| | | |
| **20/03/25** | • Cyflwyno pwyntiau gwefru cyhoeddus ar gyfer cerbydau trydan | Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Werdd |
| | • Toiledau Cyhoeddus | Blaengraffu / Dilyniant yn dilyn craffu yng nghyfarfod 5 Hydref 2023 |
| | • Torri Gwair a Chynnal Ymylon Ffyrdd Sirol | Dilyniant yn dilyn craffu yng nghyfarfod 22 Chwefror 2024 |

## PWYLLGOR CRAFFU GOFAL

| Dyddiad | Eitemau | Rheswm dros graffu |
|---|---|---|
| **13/06/24** | • Gallu'r Cyngor i weithredu Cynllun Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (Deprivation of Liberty Safeguards - DoLS) | Mater ar y gofrestr risg |
| | • Adroddiad Blynyddol y Panel Strategol Diogelu 2023/24 | Sicrwydd o ran y trefniadau diogelu corfforaethol |
| | • Datblygu darpariaeth breswyl i blant mewn gofal mewn grŵp bychan | Cynllun y Cyngor 2023-28 – Gwynedd Ofalgar |
| | | |
| **26/09/24** | • Gwasanaeth Gofal Cartref | Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Ofalgar |
| | • Darpariaeth dementia a thrafnidiaeth i rai sydd gyda dementia i fynychu gofal dydd | Cynllun y Cyngor 2023-28 – Gwynedd Ofalgar |
| | • Adroddiad Blynyddol 2023-24 - Gweithdrefn Cwynion, Ymholiadau a Diolchiadau - Plant a Chefnogi Teuluoedd ac Oedolion, Iechyd a Llesiant | Sicrwydd o ran y trefniadau ar gyfer delio gyda chwynion ym maes gwaith gofal |
| | • Polisi Codi Tâl am Ofal | Blaengraffu |
| | | |
| **21/11/24** | • Cyfarfod penodol i graffu y maes tai cymdeithasol | Cynllun y Cyngor 2023-28 – Gwynedd Glyd |
| | | |
| **20/02/25** | • Archwiliad ar y cyd gan Arolygaeth Gofal Cymru a Archwilio Cymru – Hydref 2024 | Sicrwydd bod gweithredu ar ganfyddiadau yr archwiliad |
| | • Iechyd – cyfle i drafod pryderon amrywiol gyda chynrychiolwyr o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | Pryder yn y gymuned a'r effaith ar drigolion |
| | | |
| **03/04/25** | • Cynllun Gweithredu Tai | Cynllun y Cyngor 2023-28 – Gwynedd Glyd |
| | • Gwasanaeth Iechyd Meddwl Gwynedd | Cynllun y Cyngor 2023-28 – Gwynedd Ofalgar |
| | • Adroddiad Cynnydd ar Raglen Waith Tîm Awtistiaeth | Argymhelliad yn deillio o waith Grŵp Tasg a Gorffen / Cynllun y Cyngor 2023-28 – Gwynedd Ofalgar |